



Penderfyniad ar Gostau

gan Iwan Lloyd BA BTP MRTPI

Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru

Dyddiad y penderfyniad: 16/10/2023

Cais am gostau mewn perthynas â CAS-02502-Z9G7N6

Cyfeiriad y safle: Dol Aur, Beulah Road, Beulah, SA38 9QB

- Cyflwynir y cais o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 78, 322C ac Atodlen 6.
 - Cyflwynir y cais gan Mr a Mrs Paul Cowton am ddyfarnu costau llawn yn erbyn Cyngor Sir Ceredigion.
 - Mae'r apêl yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer 'cais ôl-weithredol ar gyfer newid defnydd storfa llawr cyntaf i uned llety gwyliau ac arwynebu ffordd fynediad'.
 - Cynhaliwyd ymweliad safle ar 29 Awst 2023.
-

Penderfyniad

1. Gwrthodir y cais am ddyfarnu costau.

Y cyflwyniadau

2. Gwnaed y cais am gostau yn ysgrifenedig gan Mr a Mrs Paul Cowton (yr ymgeiswyr) ac mae'n ymwneud â dyfarniad llawn. Mae'r Cyngor (yr ymatebydd) wedi rhoi ei ymateb yn ysgrifenedig ac mae'r ymgeiswyr wedi darparu eu sylwadau terfynol hefyd. Mae'r cyflwyniadau hyn, a gynigiwyd yn ysgrifenedig, wedi cael eu hystyried yn sylwedd y penderfyniad hwn.

Rhesymau

3. Mae Atodiad Adran 12 'Dyfarnu Costau' o'r Llawlyfr Rheoli Datblygu ('yr Atodiad') yn cynghori, ni waeth beth fo canlyniad apêl, ceir dyfarnu costau dim ond yn erbyn parti sydd wedi ymddwyn yn afresymol, gan felly achosi i'r parti sy'n gwneud cais am gostau fynd i draul ddiangen neu wastraff yn y broses apêl. Mae hefyd yn esbonio bod rhaid i geisiadau am gostau ddangos yn glir sut mae unrhyw ymddygiad afresymol wedi arwain at draul ddiangen neu wastraff.
4. Mae cyflwyniadau'r ymgeiswyr yn ymwneud ag ymddygiad yr awdurdod cynllunio lleol, prosesu a phenderfynu ar y cais, methiannau amser wrth ddilysu'r cais, datgelu gwybodaeth a sylwadau'n gyhoeddus a ddylai fod wedi cael eu harchwilio a'u hepgor, dulliau anghyson o gysylltu i gael gwybodaeth, ymestyn yr amserlen i ystyried y wybodaeth ofynnol, methiant i ymgysylltu â'r ymgeiswyr ac i ymdrin â chyngor ymgylgoreion statudol ynglŷn â'r cais yn ddigonol. Beirniadir y swyddogion am anwybyddu ceisiadau am eglurhad, materion yn ymwneud â rheoli achos y cais, methiant i ymweld â'r safle, methiant i ddarparu adroddiad y swyddog gyda phenderfyniad y

Cyngor, pryder ynglŷn â'r modd yr ymdriniwyd â chwynion a'r niwed canlyniadol i'r ymgeiswyr o ganlyniad i'r broses hon yn sgil pryder a cholled ariannol, a bod yr ymgeiswyr wedi gorfod troi at gyflwyno apêl ddiangen.

5. Mae'r ymgeiswyr wedi datgan eu bod wedi cyflwyno'r cyhuddiad ynglŷn â chamdrafod gwybodaeth a sylwadau ynglŷn â'r ymgynghoriad ar y cais cynllunio i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r ymgeiswyr yn honni bod y ffordd yr ymdriniwyd â'u hachos yn torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cyflogeion Llywodraeth Leol yng Nghymru. Maen nhw wedi atgyfeirio eu pryderon i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd.
6. Nid yw'r rhestr o enghreifftiau o ymddygiad afresymol ar ran awdurdod cynllunio lleol yn yr Atodiad yn gynhwysfawr ac mae'n bosibl nad yw'n cynnwys pob enghraifft o ymddygiad o'r fath. Fodd bynnag, mae'n rhoi enghreifftiau lle y byddai ymddygiad afresymol yn arwain at ddyfarnu costau. Un enghraifft o'r fath y gellid ystyried ei bod yn berthnasol i achos yr ymgeiswyr yw'r methiant i benderfynu ar gais o fewn y terfynau amser statudol pan nad oedd rheswm pendant dros gyfiawnhau oedi wrth benderfynu ar y cais. Fodd bynnag, i'r gwrthwyneb, mae'r ymgeiswyr yn honni y dylai'r cais cynllunio fod wedi cael ei ddal heb ei benderfynu i ymchwilio i'r mater ffosffadau ac i ystyried cais yr ymgeiswyr gan roi sylw dyladwy i'r datrysiadau a gynigiwyd ganddynt i oresgyn y pryder hwn ynglŷn â ffosffadau.
7. Penderfynais ar yr apêl ar sail un prif fater penderfynu ac, fel yr amlinellwyd yn fy mhenderfyniad, nid yw'r gwrthwynebiad polisi i geisio dull amgen o waredu dŵr budr trwy gysylltiad nad yw'n garthffos mewn ardal sydd â charthffos wedi cael ei oresgyn, ac nid oedd y Cyngor yn afresymol wrth benderfynu ar y cais yn y modd hwn. Mae fy nghasgliadau ynglŷn â'r apêl yn cyd-fynd ag ymagwedd y Cyngor ac roedd honno'n gyson â chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol. Mae'r Atodiad yn nodi na ddylai fod sail i ddyfarnu yn yr amgylchiadau hynny lle mae awdurdod cynllunio lleol wedi gwrthod cais nad yw'n cyd-fynd â chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol, fel yr amlinellir ym mharagraff 3.8.
8. At ei gilydd, nid oes tystiolaeth bod yr awdurdod cynllunio lleol wedi dangos diffyg cydweithredu trwy wrthod darparu gwybodaeth y gofynnwyd amdani na'i fod wedi celu tystiolaeth berthnasol yn fwriadol. Ni ddangoswyd yr un o'r amgylchiadau a restrir yn yr Atodiad ar gyfer ymddygiad afresymol, ac ni chyflwynir achos o sylwedd bod hyn wedi arwain at draul ddiangen neu wastraff yn ystod y broses apêl. Yn fy marn i, nid oedd modd osgoi'r apêl.
9. Er bod yr ymgeiswyr wedi cwyno i'r awdurdod cynllunio lleol, yr Ombwdsmon, a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, mae'r prosesau hyn y tu hwnt i gylch gorchwyl fy awdurdodaeth.

Casgliad

10. Felly, deuaf i'r casgliad na ddangoswyd ymddygiad afresymol a arweiniodd at draul ddiangen neu wastraff, fel y'i disgrifir yn yr Atodiad. Gwrthodir y cais am ddyfarnu costau. Felly, nid oes cyfiawnhad dros ddyfarnu costau rhannol na llawn yn yr achos hwn.

Iwan Lloyd

AROLYGYDD